



## Cofnodion Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru a gynhaliwyd yn Aberystwyth 23 Chwefror 2019

### 2019.01 Addoli agoriadol a chroeso

Yn ystod ein haddoli agoriadol, darllenwyd rhif 5 o *Cynghorion ac Ymholiadau* yn y Gymraeg gan Rhian Parry ac yn Saesneg gan Ruth Moore Williams.

### 2019.02 Yn bresennol:

Rydym yn croesawu 42 o Gyfeillion yma heddiw fel a gofnodwyd ar y rhestr bresenoldeb.

Cynrychiolwyr y Cyfarfodydd Ardal heddiw yw:

CA De Cymru (CADC): Christine Trevett

CA Gororau'r De (CAGD): Jeff Beatty

CA Canolbarth Cymru (CACC): Alan Clark

CA Gogledd Cymru (CAGC): Frances Voelcker a Ruth Moore Williams

Ein henaduriaid ar gyfer heddiw yw: Julia Aspden a Frank Brown. Ein cyfieithydd heddiw yw Steffan Wiliam.

### 2019.03 Calon a *The Friend*

Bydd Alan Clark yn ysgrifennu adroddiad am y cyfarfod hwn i Calon a Huw Meredydd Owen yn ysgrifennu ar gyfer *The Friend*.

### 2019.04. Cofnodion ynglŷn â phenderfyniadau rhwng cyfarfodydd

- a) Yn dilyn cofnod 2018.44 CyC yng Nghymru, daeth ein grŵp chwilio â'r enw Jess Morgan o CADC gerbron a benodwyd, mewn ymgynghoriad rhwng clerod CyC yng Nghymru a Chlerc yr Ymddiriedolwyr, i'r grŵp enwebiadau gan fod angen cryfhau hwnnw ar unwaith. Croesawn Jess i'r rôl yma.
- b) Mae Jeff Beatty (CAGD) wedi cytuno i fod yn gynrychiolydd i ni yn Sioe Frenhinol Cymru ym mis Gorffennaf 2019 ac mae Gwyneth Hewitson wedi cytuno i fod yn gynrychiolydd i ni yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst ym mis Awst 2019.
- c) Mae Cyfarfod Blynyddol Prydain wedi cytuno ar y grant i CyC yng Nghymru sy'n ariannu ein gweinyddiaeth a gwasanaethau cyfieithu.
- d) Cytunodd Peter Hussey i fod yn gynrychiolydd i ni yng nghynhadledd Woodbrooke, Ateb yr hyn sydd o Dduw: amrywiaeth a chynhwysiant yng Nghymdeithas y Cyfeillion.

e) Mae Peter Hussey wedi cytuno i fynychu'r Synod chwe-misol ar gyfer yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig yng Nghymru a fydd yn cyfarfod yn Llandrindod.

#### **2019.05 Cofnodion a dderbyniwyd ers y cyfarfod diwethaf:**

##### **a) Mewn ymateb i gofnod 2018.44.c CyC yng Nghymru:**

- i) Ymhellach i gofnod 2018.44c CyC yng Nghymru (a chofnod 18:11:12(i) CADC) mae Pwyllgor Enwebiadau CADC yn dwyn gerbron enw Deborah Rowlands i fod ein cyswllt â Phwyllgor Enwebiadau CyC yng Nghymru hyd at ddiwedd mis Chwefror 2021.

##### ii) Cofnod o CAGC

**2019/17** Mewn ymateb i gofnod 2018/126, Judith Hedges fydd y cyswllt i Gyfarfod Ardal Gogledd Cymru â CyC yng Nghymru.

##### **b) Mewn ymateb i gofnod 2018.48 CyC yng Nghymru:**

##### i) Rhan o gofnod 18:11:12: (ii) CADC:

Mae cofnod 2018.48 wedi'i ddarllen i ni ynglŷn â'r cais am gyllid ar gyfer cyfieithu'r pecyn 'Wythnos Heddwch' i ysgolion. Fe'n hysbysir bod y Clerc Cofnodi, Paul Parker, wedi dweud bod Cyfarfod Blynyddol Prydain yn '... awyddus i weld hyn yn digwydd.'

Rydym yn cytuno i roi £500 ar unwaith tuag at y cyllid ar gyfer cyfieithu a theiposod y pecyn. Anogwn Gyfeillion unigol hefyd i ystyried cefnogi hyn yn ariannol.

Byddem yn ystyried rhoi mwy pe bai angen, i alluogi hyn i fynd rhagddo.

Gofynnwn i'n Clercod yrru'r cofnod hwn ymlaen at Catherine James, Clerc Dros Dro CyC yng Nghymru er gwybodaeth a gofynnwn i'n Trysorydd Peter Davies egluro i Catherine sut y dylid gwneud y rhodd yma. Gofynnwn i'n Clercod yrru'r cofnod hwn ymlaen at Paul Parker er gwybodaeth.

##### ii) Cofnod gan CAGC:

**2019/14** Cefnogwn yn gryf brosiect CyC yng Nghymru i gyfieithu'r pecyn Wythnos Heddwch i ysgolion i'r Gymraeg a sicrhau ei fod ar gael ar wefan yr athrawon, Hwb. Nodwn mai'r cyfanswm sydd ei angen yw £3000 a chytunwn i wneud cyfraniad o £500; gofynnwn i'n Trysorydd drefnu hyn.

Gwahoddir rhoddion unigol a dylid eu rhoi i'r Trysorydd, Martin Hughes, e-bost: [Treasurer.MFW@gmail.com](mailto:Treasurer.MFW@gmail.com)

Diolchwn i CADC a CAGC am eu hymatebion yr ydym yn eu gyrru ymlaen at y Clerc Cofnodi yn unol â'i gais.

##### iii) Noder: Bydd CA Canolbarth Cymru yn ystyried y mater hwn ym mis Mawrth

##### iv) Mae CA Gororau'r De wedi anfon y mater at yr ymddiriedolwyr i'w hystyried.

Mae ein trysorydd wedi gyrru ymlaen yr holl arian a dderbyniwyd hyd yma i Gyfarfod Blynyddol Prydain.

### c) Cofnod gan gwrdd lleol Pen-y-bont ar Ogwr:

Cofnod 19.08 Llythyr ynglŷn â'r UE a Gwobr Heddwch Nobel. Cylchredwyd llythyr a ddrafftwyd gan Gill ac Alistair Nelson am hyn yn ein cyfarfod a'i anfon i'r Friend ac at Paul Parker, y Clerc Cofnodi.

Atebodd Paul Parker gan ofyn bod y mater yn cael ei godi gyda chwrdd Pen-y-bont ar Ogwr a/neu Gyfarfod Ardal De Cymru i weld a yw Cyfeillion yn unedig y tu ôl i'r hyn a fynegir.

Rydym yn unedig y tu ôl i'r materion a godir yn y llythyr ac yn gofyn i'n clercc yrru'r cofnod hwn i Gyfarfod Ardal De Cymru a Chyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru ynghyd â llythyr Gill ac Alistair gan ofyn bod y cofnod a'r llythyr yn cael eu gyrru ymlaen i'r Cyfarfod Dioddefiadau iddynt eu hystyried.

Byddwn yn ystyried hyn o dan eitem 7 ar yr agenda (datganiad ar Brexit).

#### **2019.06 Enwebiadau a phenodiadau:**

Mae ein pwyllgor enwebiadau'n dwyn gerbron enw Jeff Beatty i weithredu fel ymddiriedolwr a hyn i ddod i rym yn syth hyd at 31.12.21. A'r Cyfaill hwn yn fodlon, fe'i penodir yn briodol.

Mae ein pwyllgor enwebiadau'n dwyn gerbron enw Jane Harries i weithredu fel clercc cynorthwyol a hyn i ddod i rym yn syth hyd at 31.12.21. A'r enw hwn yn dderbyniol, fe'i penodir yn briodol.

#### **2019.07 Adroddiad yr Ymddiriedolwyr**

Mae Deborah Rowlands, Clerc yr Ymddiriedolwyr, wedi dweud wrthym fod yr ymddiriedolwyr yn ystyried materion cyflogi a byddant yn diweddarau ein dogfennau polisi i gydymffurfio â newidiadau mewn deddfwriaeth. Maent hefyd wedi ystyried adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen; byddwn yn ystyried eu casgliadau pan fyddwn yn edrych ar adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen y prynhawn yma.

Mae'r ymddiriedolwyr wedi gofyn i ni ystyried yr argymhellion canlynol: (Cofnod 2019.4 is-adrannau iii i v yr ymddiriedolwyr).

**iii. Cyfarwyddiadau llofnodi sieciau.** Rydym yn argymhell mai Deborah Rowlands, Clerc yr Ymddiriedolwyr, Tricia Jones a Catherine James, Cyd-glercodd CyC yng Nghymru a'r Trysorydd Martin Hughes ddylai fod yn llofnodwyr ar gyfer cyfrifon CyC yng Nghymru. Dylent hefyd gael eu hawdurdodi i oruchwyllo'r cyfrif ar-lein ac i gymeradwyo taliadau ar-lein. Mae pob taliad angen dau lofnodwr neu ddau awdurdodiad o'r pedwar.

**iv. Cyfraniadau Cyfarfodydd Ardal ar gyfer 2019.** Rydym yn argymhell bod CyC yng Nghymru yn gofyn i Gyfarfodydd Ardal gyfrannu £5.25 y pen fel tâl aelodaeth yr un fath â'r llynedd.

**v. Dilysu cyfrifon.** Rydym yn argymhell ein bod yn gofyn i Jeff Nagle wasanaethu fel dilysydd annibynnol ar gyfer cyfrifon 2018. Mae'r trefniad yma'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth elusennau bresennol.

Cytunwn i'r argymhellion hyn a byddwn yn anfon rhan iv o'r cofnod hwn i'r pedwar cyfarfod ardal perthnasol.

#### **2019.08 Adroddiadau**

Mae'r adroddiadau canlynol wedi'u cylchredeg drwy e-bost ac ar gael mewn print yma heddiw. Fe'u hatodir i'r cofnodion hyn.

a) **Adroddiadau'r Grŵp Ffocws:**

**i) Gwaith y pwyllgor**

**ii) Datganiad ynglŷn â Brexit: beth dylen ni ei wneud?**

Mae'r Grŵp Ffocws wedi dod â datganiad i ni ynglŷn â Brexit (ymadawiad Prydain â'r Undeb Ewropeaidd):

**Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru a Brexit**

Mae Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru yn cynrychioli'r holl Grynwyr sy'n byw neu'n gweithio yng Nghymru. Safbwynt creiddiol y Crynwyr yw bod rhywbeth ym mhob unigolyn y gellir cyfeirio ato fel 'yr hyn sydd o Dduw'. O ganlyniad, rydym yn ceisio byw mewn ffordd sy'n adlewyrchu ein profiad o botensial pawb. Dyna pam, drwy gydol ein hanes sy'n ymestyn dros 350 o flynyddoedd, rydym wedi llefaru o blaid heddwch, cydraddoldeb, gwirionedd, symlrwydd a chynaliadwyedd.

Bydd Crynwyr Cymreig a bleidleisiodd yn y refferendwm ar aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd wedi pleidleisio dros Adael ac Aros. Ni fydd consensws ynglŷn â sut y dylai'r wlad weithredu mewn cysylltiad â'i threfniadau masnach yn y dyfodol.

Fodd bynnag, mae'r drafodaeth hon wedi ein gwneud yn ymwybodol o'i natur elyniaethus ac am bryderon a rennir gan bawb am ein cymdeithas. Ceir consensws cryf ymhlith Cyfeillion ynglŷn â phryder am lawer o agweddau ar ein sefyllfa bresennol.

Mae Alistair a Gill Nelson (Cwrdd Lleol Pen-y-bont ar Ogwr) wedi ein hatgoffa, beth bynnag a all fod yn iawn am yr Undeb Ewropeaidd neu o'i le ag ef, y diffiniwyd ei bwrpas gwreiddiol gan ei sefydlydd Robert Schuman ym 1950 fel "*gwneud rhyfel nid yn unig yn rhywbeth y tu hwnt i bob amgyffred ond yn amhosibl yn faterol.*" Fe'i crëwyd ychydig flynyddoedd yn unig ar ôl yr ail o ddau ryfel byd lle'r oedd miliynau o bobl wedi marw ac roedd pobl yn mawr ofni y byddai hyn yn digwydd eto. Yr holl reswm dros fodolaeth yr UE oedd cadw'r heddwch yn Ewrop a rhoddwyd Gwobr Nobel i'r UE mewn cydnabyddiaeth bod hyn wedi'i gyflawni, ryw 62 o flynyddoedd yn ddiweddarach. Rhaid i ni beidio byth â thanbrisio beth mae heddwch yn ei feddwl a chyn lleied o ots sydd am economeg a thariffau os nad yw'n bodoli.

Mae'r UE gyda'r DU fel un o'i brif aelodau wedi bod yn hollbwysig wrth sicrhau'r heddwch hwnnw a hefyd y safonau o ran arferion gwaith a diogelwch bwyd sydd gynnon ni heddiw. Mae'n hanfodol bod y DU yn cael hyd i ffyrdd o gynnal y safonau hynny a chydweithio â'n cymdogion i barhau i wella amodau bywyd i bawb.

Mae'r Deyrnas Unedig wedi dod yn gymdeithas anghyfartal. Rydym yn ymboeni'n arw am yr anghyfartalwch lle ceir llond dwrn o bobl eithriadol gyfoethog tra bydd niferoedd mawr yn ei chael yn fwyfwy anodd ymdopi a gormod o lawer yn cael eu gwthio dros y dibyn i dlodi gormesol lle maent yn gorfod dibynnu ar fanciau bwyd. Ymfalchïwn yn natur flaengar Llywodraeth Cymru a'r ffordd y maent wedi blaenoriaethu llesiant cenedlaethau'r dyfodol, ond mae llawer o bolisïau presennol Llywodraeth y DU yn rhoi achos i ni boeni.

Rydym yn ymboeni'n arw pan welwn ni bobl sydd wedi byw yma a chyfrannu'n hael at ein cymunedau am flynyddoedd lawer, efallai am y rhan fwyaf o'u bywydau neu hyd yn oed eu bywydau cyfan, yn gorfod gwneud cais am ganiatâd i aros yn y wlad sydd wedi dod yn gartref iddynt. Ni ddylai pobl sy'n byw ac yn gweithio yma ers blynyddoedd orfod gwneud cais am 'statws sefydlog'.

Testun braw i ni yw'r cysyniad o'r 'amgylchedd gelyniaethus', yn enwedig yn y ffordd y mae wedi'i gymhwyso at bobl a ddaeth i'r DU ar basbortau eu rhieni ac sydd bellach yn cael eu herlid i ddangos prawf o'u dinasyddiaeth Brydeinig, prawf sydd yn aml yn anodd cael hyd iddo oherwydd gweithredoedd blaenorol gan y Swyddfa Gartref. Bydd llawer o bobl yn credu bod y sgandal yma wedi dod i ben yn sgil y cyhoeddusrwydd ychydig fisoedd yn ôl a roddwyd i straeon am bobl yn cael eu hallgludo a adwaenir fel sgandal Cenhedlaeth *Windrush* ond mae hyn yn dal i ddigwydd.

I Grŵp Ffocws Cymru CyC Cymru, Peter Hussey, Clerc

Rydym yn ddiolchgar i'r grŵp am eu gwaith ac yn anfon y datganiad hwn fel y'i diwygiwyd i'r Cyfarfod Dioddefiadau iddynt ei ystyried.

## **b) Cynhadledd yn Woodbrooke: ateb yr hyn sydd o Dduw: amrywiaeth a chynhwysiant yng Nghymdeithas y Cyfeillion (copi ynghlwm)**

### **2019.09 Adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen am drefniadau ar gyfer CyC yng Nghymru yn y dyfodol**

Yn dilyn cofnod 2018.45 CyC yng Nghymru, rydym wedi derbyn adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen; mae wedi'i gylchredeg drwy e-bost, mae ar gael heddiw mewn print ac wedi'i atodi i'r cofnodion yma. Rydym hefyd wedi ystyried sylwadau'r ymddiriedolwyr ar y papur hwn.

Rydym yn derbyn yr holl argymhellion, gan gynnwys dirwyn y pwyllgor trefniadau i ben y mae ein swyddog gweinyddol wedi ymgymryd â llawer o'i waith.

### **2019.10 Gweithdy gyda Christine Trevett: Beth gallwn ei ddweud – fel Crynwyr yng Nghymru?**

Mae Christine Trevett wedi'n harwain mewn gweithdy ysgogol. Mae'r cwestiynau a anfonwyd drwy e-bost ymlaen llaw ac sydd ar gael ar bapur heddiw wedi canolbwyntio ein sylw ar agweddau pwysig ar yr adolygiad o'n Llyfr Disgyblaeth. Rydym hefyd wedi clywed cyflwyniadau byr i'n helpu i ddeall sut mae'r adolygiad yn cael ei baratoi, i ystyried anghenion adolygu'r adrannau sy'n ymwneud â rheoli'r eglwys a'n harwain i ystyried o ddifrif anghenion Cymru fel cymdeithas ddwyieithog ac amlddiwylliannol a beth gallwn ni fel cenedl ei gyfrannu a fydd yn cyfoethogi teithiau ysbrydol y rheini yng Nghymru ac yn y byd ehangach.

Rydym wedi trafod y cwestiynau (gweler isod) a llunio rhestr o fyfyrddodau a fydd yn cael eu crynhoi a'u hanfon at gyrddau lleol.

Gall Cyfeillion hefyd anfon deunydd yn unigol at:

- i) (ar-lein) <https://forms.quaker.org.uk/qfp> - yn ddelfrydol
- ii) (e-bost) [qfp@quaker.org.uk](mailto:qfp@quaker.org.uk)

## **2019.11. Dyddiadau a lleoliadau ar gyfer cyfarfodydd pellach yn 2019:**

22 Mehefin 2019: Tŷ Cwrdd Aberdaugleddau: Aled Eurig

26 Hydref 2019: Eglwys Fethodistaidd y Drenewydd (Jane Harries ar waith heddwch yng Nghymru)

Llofnodwyd: gan y Cyd-glercod

Catherine James

Tricia Jones

---

### **Gweithdy Adolygu QF&P: *Beth Gallwn ei Ddweud?***

Cwestiynau i'r gweithdy:

- (i) pa bethau cadarnhaol a negyddol am QF&P y mae angen eu cadw neu ymdrin â nhw yn y fersiwn nesaf?
- (ii) beth mae angen ei gynnwys, neu ei gynnwys yn llawnach, cyhyd ag y gallwn ni er mwyn siarad â'r cenedlaethau a fydd yn ei ddarllen hyd at yr adolygiad nesaf (oddeutu'r flwyddyn 2050?)
- (iii) beth, os rhywbeth, y mae angen ei wneud i sicrhau bod Crynwriaeth yn a thros Gymru wedi'i chynrychioli ynddo?